Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol y Graig

**Ffordd y Coleg**
**Lon Talwrn**
**Llangefni**
**Ynys Môn**
**LL77 7LP**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2010**

**gan**

**Merfyn Lloyd Jones**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol y Graig wedi ei lleoli ar safle newydd ar gyrion tref Llangefni. Agorwyd yr adeilad newydd ym mis Ionawr 2009 i ddarparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng meithrin ac 11 oed. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol dymor ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed. Mae'r disgyblion yn cynrychioli ystod gallu lawn. Cymraeg yw prif gyfrwng yr addysgu. Mae'r ysgol yn gwasanaethu rhannau o Langefni yn bennaf ond daw oddeutu 14% o'r disgyblion o'r cylch gwledig a phentrefi eraill cyfagos. Cydnabyddir bod cyfran helaeth o ddalgylch yr ysgol yn ardal dan anfantais economaidd, ond mae oddeutu 20% o'r disgyblion yn dod o gefndir mwy ffyniannus. Daw tua 60% o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf. Mae canlyniadau asesiad sylfaen yr ysgol yn is na chyfartaledd y dalgylch a'r awdurdod lleol (ALl).

Mae 343 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd, ac mae hawl gan ryw 24.3% ohonynt i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol uwch na chyfartaleddau'r ALl a Chymru. Nodwyd bod gan 33% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig (AAA) ac mae gan 18 disgybl ddatganiad o AAA.

Yn ogystal â'r pennaeth mewn gofal mae12 o athrawon llawn amser ac 1 rhan amser yn yr ysgol. Mae 13 o ddosbarthiadau gan gynnwys y dosbarthiadau meithrin. Mae nifer y disgyblion wedi bod yn sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae'r pennaeth mewn gofal yn ei swydd ers Medi 2009.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol y Graig yw £2,909 sy'n cymharu ag uchafswm o £15,158 ac isafswm o £2,685 ar gyfer disgyblion cynradd yn awdurdod Ynys Môn. Gan yr ysgol mae'r 48fed cyllideb uchaf fesul disgybl o'r 52 ysgol gynradd yr awdurdod.

## Crynodeb

| Perfformiad cyfredol yr ysgol | Da |
|---|---|
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad cyfredol**

Mae'r ysgol yn dda oherwydd:

- mae disgyblion yn cyflawni safonau da;
- mae datblygiad moesol, personol a chymdeithasol y disgyblion yn rhagorol;
- mae'r addysgu o ansawdd da ac mae'r disgyblion yn cael budd o gwricwlwm diddorol ac amrywiol; ac
- mae arweiniad effeithiol ac ethos cynhwysol yr ysgol yn creu'r amodau gorau posibl i bob unigolyn ddatblygu a ffynnu.

**Rhagolygon gwella**

Mae gan yr ysgol ragolygon gwella da oherwydd mae'r:

- tîm rheoli a'r corff llywodraethol yn cynnig arweiniad clir i'r ysgol;
- pennaeth a'r staff yn dangos ymrwymiad llwyr i safonau uchel; ac
- ysgol yn ymgymryd â rôl flaenllaw i ddatblygu arferion cydweithio gyda nifer helaeth o asiantaethau.

## Argymhellion

A1 sicrhau bod gwersi'n cynnig digon o her i ddisgyblion uwch eu gallu;

A2 yng nghyfnod allweddol 2, datblygu ymhellach strategaethau hunan asesu'r disgyblion er mwyn iddynt ddod yn fwy ymwybodol o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith; a

A3 chryfhau'r system fonitro ymhellach i ganolbwyntio'n fwy penodol ar gynnydd a chyflawniad disgyblion.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn gyffredinol, mae perfformiad yn erbyn prif ddangosyddion ar gyfer cyfnodau allweddol dros y tair blynedd diwethaf wedi cymharu'n dda ag ysgolion tebyg a chyrhaeddiad blaenorol disgyblion. Mae cyflawniadau'r disgyblion saith oed yn 2010 yn y tri phwnc Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth, yn ôl asesiad athrawon yn uwch na chyfartaleddau'r teulu, yr ALl a chenedlaethol. Yn yr un flwyddyn mae cyflawniad y disgyblion 11 oed yn y pedwar pwnc Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn uwch na chyfartaleddau'r teulu, yr ALl a chenedlaethol. Mae'r ganran o ddisgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn 2010 sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd o'i gymharu ag ysgolion tebyg, hynny yw, yr ysgolion hynny gyda niferoedd tebyg o ddisgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim, yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf yng Nghymru. Dros y cyfnod 2006-2010 yn y ddau gyfnod allweddol, er bod y ganran sy'n cyflawni lefel disgwyliedig yn gyson uwch na chyfartaleddau'r teulu, yr ALl a chenedlaethol, yn gyffredinol mae'r ganran sy'n cyflawni'r lefel uwch yn is ac wedi lleihau dros yr un cyfnod. Nid oes patrwm arwyddocaol yn amlygu ym mherfformiad bechgyn a merched.

Mae bron pob un disgybl yn gwneud cynnydd da neu well yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. Mae'r rhai sydd â hawl i brydau ysgol am ddim a disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u gallu.

Mae safonau a'r cynnydd a wna rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn y medrau allweddol siarad a gwrando, darllen ac ysgrifennu yn dda. Mae defnydd llawer y disgyblion o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i gywain ac arddangos eu gwaith yn ganmoladwy mewn sawl pwnc ar draws y cwricwlwm.

Mae safonau yn yr iaith Gymraeg a medrau dwyieithog rhan fwyaf y disgyblion yn dda.

**Lles: Rhagorol**

Mae datblygiad moesol, personol a chymdeithasol y disgyblion yn rhagorol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos agweddau da iawn tuag at eu gwaith drwy ddangos diddordeb a brwdfrydedd amlwg. Mae eu hymddygiad yn rhagorol. Maent yn ystyriol, cyfeillgar a chwrtais i'w gilydd, staff ac ymwelwyr. Cydweithiant yn effeithiol iawn gyda'i gilydd. Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ardderchog o sut gallant ddod yn iach, trwy'r hyn maent yn ei fwyta a'r gweithgarwch corfforol maent yn ymgymryd ag ef. Mae'r rhan fwyaf yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod bod eu hanghenion yn cael eu trin yn effeithiol iawn.

Mae aelodau o gyngor yr ysgol yn cymryd rhan weithredol mewn gwneud penderfyniadau, sy'n cael effaith gadarnhaol ar lawer o agweddau ar fywyd yr ysgol.

Mae cyfraddau presenoldeb yr ysgol dros y tair blynedd diwethaf yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf yng Nghymru o ysgolion tebyg.

Fe gydnabyddir yr agwedd yma o fywyd a gwaith yr ysgol fel enghraifft o ymarfer arloesol yn lleol ac yn sirol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn paratoi ystod eang a chytbwys o brofiadau ysgogol i'r holl ddisgyblion sy'n llwyr ymateb â gofynion y Cyfnod Sylfaen, y cwricwlwm cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cyfathrebu, rhifedd a TGCh wedi ei gynllunio'n briodol.

Mae dosbarthiadau'r Cyfnod Sylfaen yn darparu profiadau cyfoethog, uniongyrchol sydd yn effeithio'n gadarnhaol iawn ar fedrau personol a chymdeithasol y disgyblion. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion penodol ar draws yr ysgol yn nodwedd ardderchog.

Mae gweithgareddau dysgu cyfoethog ac ymweliadau diddorol niferus, ynghyd â chyfraniad ymwelwyr nodedig, yn ennyn diddordeb y disgyblion yn llwyddiannus.

Caiff y ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig ei ddatblygu'n effeithiol drwy'r ysgol. Mae'r ysgol yn darparu'n dda ar gyfer datblygu dealltwriaeth disgyblion mewn testunau fel addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd cyffredinol yr addysgu yn dda gan gynnwys rhai enghreifftiau o addysgu rhagorol. Mae athrawon yn deall anghenion eu disgyblion yn dda a defnyddir dulliau amrywiol i ymateb i garfanau gwahanol o ddisgyblion.

Mae'r amgylchedd dysgu yn symbylol iawn ac mae pob un o'r staff addysgu, gan gynnwys y staff cymorth yn defnyddio strategaethau effeithiol sydd yn cadw rhan fwyaf y disgyblion ar waith.

Mae'r staff yn meddu ar wybodaeth bynciol dda a chyfoes ac yn disgwyl llawer gan bob un o'r disgyblion. Mae'r staff yn dangos parch at ymatebion y disgyblion ac mae hyn yn cyfrannu i greu awyrgylch sydd yn hyrwyddo dysgu llwyddiannus. Cynigir adborth canmoladwy cyson sydd yn hyrwyddo awyrgylch ddysgu gadarnhaol. Fodd bynnag, anghyson yw sylwadau ysgrifenedig yr athrawon wrth ymateb i waith. Yn yr enghreifftiau gorau cynigir sylwadau adeiladol sydd yn datblygu gallu'r disgyblion i wella eu perfformiad eu hunain.

Mae'r ymarfer lle mae disgyblion yn asesu gwaith eu hunain yn datblygu'n briodol ond mae lleiafrif yn ansicr o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith. Caiff rhieni/gofalwyr wybodaeth dda am gyflawniadau, lles a datblygiad eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer iechyd a lles y disgyblion yn nodwedd ragorol lle mae nifer o fentrau/rhaglenni o natur arloesol ar waith. Mae'r gweithdrefnau hyn, ynghyd â'r cydweithio agos â nifer fawr o asiantaethau allanol yn cael dylanwad arwyddocaol ar gynnal safonau'r disgyblion a hynny o oedran cynnar iawn. Targedir cymorth effeithiol iawn ar gyfer grwpiau o ddisgyblion sy'n agored i niwed lle mae'r pwyslais ar wella, er enghraifft, agweddau, hunan hyder, presenoldeb neu ymddygiad. Mae trefniadau diogelu yn gadarn iawn.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn ardderchog. Llwyddir i ymateb yn brydlon i bryderon ac mae'r trefniant dosbarthiadau drwy'r ysgol ynghyd a lefel uchel o staff cymorth yn cael effaith gadarnhaol ar gyraeddiadau'r disgyblion. Nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer plant galluog a thalentog wedi ei ddatblygu i'r un graddau. Mae'r cynlluniau addysg unigol yn cael eu harfarnu a'u diweddaru yn effeithiol a rheolaidd ac mae lefel uchel iawn o ymgynghori â rhieni/gofalwyr.

**Amgylchedd Dysgu: Rhagorol**

Llwydda'r ysgol i weithredu fel cymuned gynhwysol iawn lle mae pawb yn cael ei barchu i'r eithaf. Rhoddir pwyslais clir ar gydnabod a dathlu amrywiaeth. Hyrwyddir cyfle cyfartal yn dda iawn ac mae'r staff yn annog disgyblion i herio ac i ddathlu gwahaniaethau.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion ag anableddau yn ardderchog ac mae cyfraniad y staff cynnal i'r agwedd hon yn ganmoladwy.

Mae'r adeilad o ansawdd rhagorol ac yn cael ei gynnal yn dda. Gwneir defnydd llawn ohono. Mae'r adnoddau niferus o ansawdd da yn gweddu'n dda iawn i anghenion dysgu'r disgyblion.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn darparu arweiniad pendant ac yn cydweithio'n effeithiol gyda'r uwch reolwyr i greu ethos cadarnhaol ar gyfer yr ysgol gyfan. Caiff gwaith tîm ei annog a'i werthfawrogi a chydrennir disgwyliadau uchel a gwerthoedd cyffredin sy'n canolbwyntio ar greu'r amodau gorau posibl i bob unigolyn ddatblygu a ffynnu. Maent yn cael eu hadlewyrchu'n dda yng ngwaith ac ethos yr ysgol. Rhennir cyfrifoldebau penodol ymysg yr athrawon a'r cymorthyddion a gwnânt oll gyfraniad arwyddocaol i ddatblygiad yr ysgol. Cefnogant ei gilydd yn effeithiol. Dadansoddir asesiadau'r disgyblion yn ofalus i adnabod cryfderau a gwendidau. Nid yw'r trefniadau ar hyn o bryd yn manteisio'n ddigonol ar ddata cymharol i ddehongli gwerth ychwanegol. Mae llywodraethwyr yn ymgymryd â'u rolau a'u cyfrifoldebau yn gydwybodol ac yn ymateb yn dda i osod cyfeiriad strategol yr ysgol. Maent yn cymryd eu cyfrifoldebau fel ffrind beirniadol o ddifri. Trwy adroddiadau tymhorol y pennaeth ac ymweliadau llywodraethwyr unigol cânt ddarlun da o weithgareddau'r ysgol. Mae'r ysgol yn cyfrannu'n dda at flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae wedi cyflwyno'r Cyfnod

Sylfaen yn hynod lwyddiannus i bob disgybl hyd at saith oed ac yn flaenllaw yn ei gwaith o sefydlu Ysgol Gynhwysol ac yn arwain ar greu Grŵp Cynhwysiad Cynradd ar raddfa sirol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae’r trefniadau hunan arfarnu a chynllunio datblygiad yn dda ac yn rhan reolaidd o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae’r broses yn gynhwysfawr a thrylwyr. Mae’r pennaeth a’r staff yn dangos ymrwymiad llwyr i safonau uchel. Defnyddir nifer o ddulliau o fewn y drefn gan gynnwys edrych ar enghreifftiau o waith disgyblion, arsylwi addysgu a dadansoddi’n ofalus ganlyniadau asesiadau ffurfiol. Mae cydlynwyr pwnc yn gydwybodol yn eu hymdrechion i gofnodi datblygiadau yn y pwnc y maent yn gyfrifol amdano. Fodd bynnag, nid oes cysondeb yn ansawdd yr arfarnu pynciol ac nid yw’r arfarnu yn canolbwyntio’n ddigonol ar gynnydd a chyflawniad disgyblion. Mae’r blaenoriaethau a bennir yn y cynllun datblygu ysgol 2010-2011, yn addas ar gyfer datblygiad yr ysgol. Mae’r targedau ysgol gyfan a bennir yn dargedau cyraeddadwy a realistig wedi eu selio ar adnabyddiaeth dda o’r disgyblion. Fodd bynnag, nid oes cyswllt amlwg rhwng y targedau hyn a thargedau disgyblion unigol. Gwnaeth yr ysgol gynnydd da ers yr arolygiad diwethaf. Cafodd y camau a gymerwyd effaith gadarnhaol ar safonau cyflawniad dysgwyr. Mae’r ysgol yn gymuned ddysgu broffesiynol sydd yn galluogi staff i rannu gwybodaeth ac arbenigedd. Mae rhwydweithiau effeithiol o gydweithio gydag ysgolion a phartneriaid eraill.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae rhagoriaeth yn y cysylltiadau aml-asiantaethol sy’n hyfforddi a chynnal disgyblion ag anghenion arbenigol. Mae’r ysgol yn ymgymryd â rôl flaenllaw i ddatblygu arferion cydweithio gyda nifer helaeth o asiantaethau a gwasanaethau lles a chymdeithasol i sicrhau’r cyfleoedd gorau posib i’r disgyblion mwyaf bregus gyrraedd eu potensial. Mae’r ysgol yn gweithio mewn modd strategol gyda nifer eang o bartneriaid i wella safonau a lles disgyblion. Mae’r rhain yn cynnwys partneriaethau agos gyda rhieni, y gymuned ac ysgolion eraill. Mae cysylltiadau hynod o effeithiol gyda’r ALl yn cael ei defnyddio’n aml fel enghraifft o arfer dda. Mae’r partneriaethau cynhyrchiol gyda nifer helaeth o asiantaethau hyn yn cyfrannu’n arwyddocaol tuag at sicrhau ansawdd ar y cyd ac yn ehangu’r ystod o weithgareddau sydd ar gael i’r disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Da**

Caiff staffio ac adnoddau ariannol eu rheoli a’u defnyddio’n effeithiol i gefnogi gwella dysgu. Mae'r ysgol yn cyflogi nifer briodol o athrawon a staff cefnogi ar gyfer y dysgwyr. Mae cyfraniad y cymorthyddion yn ardderchog. Rhoddir pwyslais cryf ar ddatblygiad proffesiynol parhaus i bob aelod o’r staff. Sefydlwyd trefniadau clir ac effeithiol i sicrhau eu bod yn cael cyfle i drafod cynnydd, ennill medrau newydd a myfyrio ar arfer dda a’i rannu. Mae’r ysgol yn sicrhau bod dysgwyr yn cael mynediad i adnoddau dysgu priodol sy’n cyfateb i ofynion eu profiadau dysgu. Mae’r adnoddau hynny yn cael eu defnyddio’n effeithlon, yn ddarbodus ac yn effeithiol. Mae adeilad ac ystafelloedd dysgu’r ysgol fodern hon yn cynnig safle rhagorol ar gyfer addysgu a dysgu da, a chefnogaeth i’r holl ddysgwyr. Mae rheolaeth ariannol yr ysgol yn dda. Goruchwylir y gyllideb yn ofalus a rheolaidd er mwyn sicrhau gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad randdeiliaid:**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Llenwodd 65 o’r rhieni a gofalwyr yr holiadur. Mae’r bron bob un ohonynt yn fodlon â’r addysg y mae’r ysgol yn ei darparu ac yn dweud bod eu plant yn hapus, yn ymddwyn yn dda ac yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol. Mae bron pob rhiant o’r farn bod yr athrawon yn gweithio’n galed ac yn hawdd siarad â nhw os oes gan rieni unrhyw bryderon neu gwestiynau. Mae bron pob un ohonynt yn credu bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. Mae’r rhan fwyaf o’r rhieni yn fodlon â chynnydd eu plant ac o’r farn eu bod yn cael gwybodaeth dda am gyflawniadau eu plant. Mae bron pob rhiant o’r farn bod yr ysgol yn helpu eu plant i aeddfedu ac i ysgwyddo cyfrifoldebau. Mae’r rhan fwyaf o’r rhieni yn deall y drefn ar gyfer cwyno a delio a chwynion. Mae’r rhan fwyaf yn teimlo bod eu plant yn cael digon o gymorth ychwanegol gyda’u hanghenion dysgu unigol.

**Ymatebion i’r holiadur i ddisgyblion**

Llenwodd sampl fawr o ddisgyblion yn CA2 yr holiadur a siaradodd y tîm â’r disgyblion iau hefyd. Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion o’r farn eu bod yn cael eu trin â pharch ac yn dweud eu bod yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol. Dywed y rhan fwyaf fod yr ysgol yn ymdrin â bwlio’n dda a’u bod yn gwybod pwy y gallant siarad â nhw os ydynt yn poeni neu yn gofidio. Mae bron pob un o’r disgyblion o’r farn bod yr athrawon yn rhoi cymorth da iddynt ac yn eu helpu i wybod pa mor dda y maent yn ei wneud. Mae bron pob un ohonynt o’r farn bod yr ysgol yn eu haddysgu’n effeithiol am sut i fod yn iach ac yn dweud eu bod yn cael llawer o gyfleoedd i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Nid yw llawer o’r disgyblion yn poeni am ymddygiad plant eraill yn ystod amser chwarae ac amser cinio ond mae rhai yn dangos pryder. Mae rhai disgyblion yn mynegi anfodlonrwydd gyda gwaith cartref ac mae lleiafrif yn datgan fod rhai disgyblion yn amharu arnynt wrth iddynt wneud eu gwaith.

## Atodiad 2

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Merfyn Lloyd Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Goronwy Morris | Arolygydd Tîm |
| Gruffydd Dylan Roberts | Arolygydd Cymheiriaid |
| Gwynoro Jones | Arolygydd Lleyg |
| Eirianwen Williams | Enwebai'r ysgol |

**Contractwr:** EPPC-Severn Crossing Cyf Swît F2A, Tŷ Britannic, Llandarsi, Castell-nedd SA10 6JQ

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |